Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Bodedern

26 Mehefin 2023

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Croeso a derbyn ymddiheuriadau | Gweithred |
| | Yn bresennol: BH, EJ, GJ, LJ, VO, AP, JAR (Cadeirydd), RWR (Clerc)<br>Ymddiheuriadau: JF | |
| 2 | Datgan diddordeb | |
| | Dim | |
| 3 | Derbyn Cofnodion  Mai 2023 | |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir<br>LJ/EJ cynnig/eilio | |
| 4 | I ystyried unrhyw faterion sy'n codi | |
| 4.1 | GL Jones yn cadarnhau na fyddent yn gallu ymgymryd a'r gwaith trwsio ffens | I gysylltu a chwmniau eraill |
| 4.2 | Ymateb gan CSYM ynglyn ac ail osod twmpathau yn Bron y Graig.<br>I ddisgwyl eu hadroddiad yn dilyn mesur cyflymder traffic. | Disgwyl gwybodaeth pellach gan CSYM. |
| 4.3 | Ymateb gan CSYM yn cadarnhau nad oes safle bws swyddogol yn yr Ysgol Uwchradd. | I rannu linc I wefan CSYM gyda gwybodaeth safleoedd bws swyddogol yn y pentref. |
| 4.4 | Ffrindiau Bodedern yn cadarnhau mynychiad cyfarfod nesaf. | |
| 4.5 | Ymateb gan CSYM yn cadarnhau nad oes unrhyw bwerau gorfodaeth ganddynt i orfodi cadw enwau Cymraeg ar dai. | I fynegi pryderon i Rhun ap Iorwerth. |
| 4.6 | Cadarnhawyd fod bin newydd wedi ei ddarparu i'r parc, i'w fonitro a gweld os bydd angen rhoi yn sownd mewn polyn. | |
| 4.7 | CSYM ddim wedi ymgymryd a'r gwaith torri gor dyfiant dros ffordd i'r siop / cefn ty. | I gysylltu a CSYM i'w hatgoffa. |
| 5 | Deddf Cynllunio a gwlad<br>Dim | |
| 6 | Gohebiaeth i'w adolygu | |

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Bodedern

26 Mehefin 2023

| | | |
|---|---|---|
| 6.1 | CSYM yn gyrru cynllun yn dangos lle bwriedir gosod arwydd newydd yn nodi maes chwarae. | Cytunwyd i'r lleoliad. |
| 7 | Taliadau i'w gwneud | |
| | Leigh Thomas Torri'r fynwent a'r parc (£600 & £450)<br>Cyfanswm: £1050 | Cytunwyd i'r taliad |
| 8 | Eitemau a ddaeth i sylw'r cyngor gan y cynghorwyr | |
| | LJ yn nodi fod paent yn dechrau dod i ffwrdd o'r arwydd o gyfeiriad Llanynghenedl | GJ yn cysylltu a priffyrdd |
| | JAR yn nodi difrod pellach i'r ffens yn y parc. | I gael prisiau am drin / paneli newydd |
| | JAR yn nodi tyfiant chwyn ar y llwybr o Bro'r Ysgol am y parc | I gysylltu a CSYM i dorri / chwyn laddwr |
| | Nodir nad oedd arwydd "Dim Cwn" ar giat y parc | I drefnu arwydd newydd |
| | Nodir rhai goleuadau stryd o lon Dalar ddim ymlaen. Hyn yn bwrpasol neu wedi torri? | GJ i ofyn wrth Priffyrdd |
| | Contractwyr yn barod i ddechrau ymgymryd a gwaith clirio yn y fynwent. | Gwirio'r cofnodion i weld os oes claddedigaeth mewn bedd pen rhes iddynt wybod gyda'u peiriannau. |
| | Nodwyd eto problem gyda baw ci yn y pentref. | I wneud ymholiadau gyda CSYM a chontractwyr preifat am gost biniau pwrpasol o amgylch y pentref. |
| | Y clerc yn diolch am rhodd caredig y cynghorwyr ar achlysur ei phriodas.<br>Yn nodi bydd ar gyfnod mamolaeth o fynychu cyfarfodydd mis Hydref/Tachwedd (dyddiadau i'w cadarnhau). | Y cynghorwyr i benderfynu os hoffent i'r clerc drefnu i rywun gofnodi ar ei rhan neu ymuno dros zoom. |
| 9 | Dyddiad cyfarfod nesaf | |
| | 24/07/2023 | |